



Canllawiau ar gyfer Westeiwr Twristiaeth 'Tu ôl i'r Llenni'

Cyswllt	Deborah Nettleton
Ffôn	01492 531731
Ebost	Deborah.nettleton@gonorthwales.org.uk

Trosolwg

Wrth baratoi ar gyfer y prosiect rydych wedi cytuno'n garedig i fod yn Weithiwr Twristiaeth i'r Academi, rydym wedi llunio'r daflen wybodaeth hon a allai fod yn ddefnyddiol i chi ac i'ch helpu chi a'r mynychwyr i wneud y gorau o'r lleoliad.

Bydd yn ofynnol i bob cleient lofnodi dogfen cytundeb cyfrinachedd ar ddechrau pob lleoliad y maent yn ei fynychu, er mwyn diogelu'r busnes sy'n lletya a phreifatwydd pob cleient.

Beth sy'n digwydd mewn Gwesteiwr Twristiaeth 'Tu ôl i'r Llenni'

Pwrpas Gwesteiwr Twristiaeth 'Tu ôl i'r Llenni' yw i gleientiaid weld pob agwedd ar y busnes o ran cyflogaeth a dyheadau gyrfa. Mae'n gyfle gwych i gleientiaid gael gwerthfawrogiad o'r ystod eang o rolau a gyflogir gan y diwydiant twristiaeth. Mae'n bosibl na fyddai llawer o gleientiaid wedi cael y cyfle i brofi'r rhan fwyaf o'r hyn sydd gan Ogledd Cymru i'w gynnis o ran twristiaeth, a byddai ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig o gwmpas y diwydiant. Mae'r cyfleoedd hyn hefyd yn cynnig cyfle i'r cleientiaid rwydweithio gyda chyfoedion ac arweinwyr busnes, a gobeithio ennill mwy o hyder i wneud eu dewisiadau gyrfa.

O safbwynt y Gwesteiwr Twristiaeth, mae hyn yn rhoi'r cyfle i gael mewnbwn ystyrlon i ddatblygiad y genhedlaeth nesaf o weithwyr teithio proffesiynol ac o bosibl darganfod gweithwyr y dyfodol.

Mae ffocws Gwesteiwr Twristiaeth yn ymwneud â sut mae eich busnes yn gweithredu

Bydd pob cleient sy'n mynychu yn cael agenda; rhoch wybod i mi sut y bydd yr ymweliad yn rhedeg ar eich safle, gan gynnwys pwy fydd yn cynrychioli eich busnes.

A fydddech cystal â darparu 'bio' byr ar gyfer y person sy'n cynrychioli eich busnes, a'r nifer a'r math o rolau rydych yn eu cyflogi.

Bydd gofyn i'r cleientiaid hefyd ddarparu eu 'bio' a fydd yn cael ei ddarparu i chi.

Byddai taith o amgylch eich cyfleuster yn wych, yn ogystal â sgysiau gydag amrywiaeth o weithwyr a allai fod â phrofiadau neu straeon perthnasol neu ysbrydoledig i'w rhannu.

Diolch yn fawr iawn am gefnogi Academi Twristiaeth a Lletygarwch Go North Wales